

# Minnau hefyd!

## Rôl y celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol

Tachwedd 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh](http://www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **[SeneddDGCh@assembly.wales](mailto:SeneddDGCh@assembly.wales)**

Twitter: **@SeneddDGCh**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# **Minnau hefyd!**

Rôl y celfyddydau a  
diwylliant wrth fynd i'r  
afael â thlodi ac allgáu  
cymdeithasol

Tachwedd 2019



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh](http://www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh)

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Bethan Sayed AC**  
Plaid Cymru  
Gorllewin De Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mick Antoniw AC**  
Llafur Cymru  
Pontypridd



**John Griffiths AC**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Casnewydd



**Delyth Jewell AC**  
Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Carwyn Jones AC**  
Llafur Cymru  
Pen-y-bont ar Ogwr



**David Melding AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Canol De Cymru

---

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Jayne Bryant AC**  
Llafur Cymru  
Gorllewin Casnewydd



**Vikki Howells AC**  
Llafur Cymru  
Cwm Cynon



**Caroline Jones AC**  
Plaid Brexit  
Gorllewin De Cymru



**Rhianon Passmore AC**  
Llafur Cymru  
Islwyn

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Huw Irranca-Davies AC**  
Llafur Cymru  
Ogwr

## Cynnwys

<b>Rhagair y Cadeirydd.....</b>	<b>5</b>
<b>Argymhellion.....</b>	<b>7</b>
<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>8</b>
Crynodeb.....	8
<b>2. Cydweithredu.....</b>	<b>10</b>
2.1. Cyfuno.....	12
2.2. Cefndir rhaglen Cyfuno.....	12
2.3. Cydweithredu a Cyfuno.....	13
<b>3. Cyllid.....</b>	<b>19</b>
3.1. Cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau.....	19
Cyllid ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol.....	21
3.2. Cyllid ar gyfer rhaglen Cyfuno.....	22
3.3. Tystiolaeth Llywodraeth Cymru.....	24
<b>4. Mynediad a chyfranogiad.....</b>	<b>27</b>
Cyfranogiad a phresenoldeb.....	27
4.1. Rhwystrau seilwaith a thrafnidiaeth i gyfranogiad a phresenoldeb.....	28
4.2. Trafnidiaeth.....	28
4.3. Rhwystrau diwylliannol.....	30
<b>5. Gwerthusiad.....</b>	<b>34</b>
Tystiolaeth Llywodraeth Cymru:.....	36
5.1. Gwerthusiad o raglen Cyfuno.....	36
Y cefndir.....	36
Canfyddiadau.....	37
Methodoleg.....	38
Y camau nesaf.....	40
<b>Atodiad A.....</b>	<b>42</b>
<b>Atodiad B.....</b>	<b>44</b>

---



## Rhagair y Cadeirydd

Dewisodd y Pwyllgor edrych ar y ffyrdd y mae'r celfyddydau a diwylliant yn lliniaru tlodi ac allgáu cymdeithasol yn ystod haf 2019.

Mae cynifer o enghreifftiau o'r gwaith rhagorol a wnaed gan sefydliadau celfyddydol a diwylliannol Cymru mai tanddatganiad yw dweud ei fod wedi creu argraff dda arnom. Roedd pob un o'r prosiectau y cawsom wybod amdanynt wedi helpu i weddnewid bywyd rhywun. Boed drwy estyn allan at bobl oedrannus i ddarparu gweithgareddau symbylol, neu gyflwyno pobl ifanc i gerddorfa a dawns, cafodd canlyniadau ymgysylltu'n greadigol effaith barhaol.

Rydym yn gwybod y gall y sgiliau y mae pobl yn eu dysgu drwy gymryd rhan mewn gweithgaredd creadigol eu helpu i ddatblygu sgiliau a all wella eu sefyllfa. Rydym hefyd yn gwybod y gall cymryd rhan yn y celfyddydau leddfdu effeithiau tlodi ac allgáu cymdeithasol. Dyma pam ei bod mor bwysig sicrhau bod ein bywyd diwylliannol yng Nghymru yn cynnwys pawb.

Clywsom y gall annog cyfranogiad ehangach weithiau ymddangos yn waith go galed gan yr ystyrir bod y celfyddydau'n elitaidd neu allan o gyrraedd. Er enghraifft, dywedodd Kathryn, Rubicon Dance, wrthym nad yw'r cymunedau y maent yn gweithio gyda hwy o'r farn eu bod yn anodd eu cyrraedd, a'u bod, yn aml, yn credu bod sefydliadau diwylliannol ac eraill yn bell ohonynt a'u bod wedi'u datgysylltu o'u bywydau. Felly, mae'n rhaid gofyn pwy yn union yw'r rhai y mae'n anodd eu cyrraedd. Ai'r sefydliadau diwylliannol eu hunain ydyw?

Mae arian cyhoeddus yn cefnogi'r gweithgarwch hwn. Mae hyn yn digwydd yn uniongyrchol drwy arian cyhoeddus i sefydliadau a gefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac, yn anuniongyrchol, drwy Raglen Cyfuno Llywodraeth Cymru. Cynlluniwyd y rhaglen hon i annog ein sefydliadau diwylliannol i wneud cysylltiadau â chymunedau i ddarparu cyfleoedd i bobl sy'n wynebu rhwystrau economaidd fwynhau ein diwylliant a'n treftadaeth.

Mae pob un o sefydliadau celfyddydol Cymru a gydnabyddir yn rhyngwladol yn mynd ati i estyn allan at gynulleidfaoedd newydd. Gwelsom hefyd awydd gan gyfranogwyr i gael mwy o reolaeth dros y gweithgareddau diwylliannol y maent yn cymryd rhan ynddynt. Mae heriau'n gysylltiedig ag estyn gweithgareddau diwylliannol i gymunedau sydd, wedyn, heb y seilwaith i gynnal gwaith parhaus. Gall deimlo fel pe bai sefydliadau celfyddydol mawr wedi dod i mewn am gyfnod byr ac nad adeiledir ar y manteision hyn.

Rwy'n hyderus y gall, ac y dylai, pawb fwynhau ein sefydliadau diwylliannol a bod hyrwyddwyr diwylliant Cymru yn barod am yr her o greu effaith barhaol ar gynulleidfaoedd, ni waeth beth yw eu cefndir.



## Argymhellion

- Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwerthusiad ar raddfa fawr o raglen Cyfuno sy'n asesu'r amcanion gwreiddiol, y cyllid a'r gwerthusiad.  
..... Tudalen 18
- Argymhelliad 2.** Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau bod holl aelodau Portffolio Celfyddydol Cymru (ei sefydliadau a ariennir gan refeniw) yn gweithio gyda'r cymunedau gwahanol y maent yn eu gwasanaethu i gynllunio eu rhaglen weithgareddau. .... Tudalen 18
- Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyllid rhaglen Cyfuno i roi sicrwydd deiliadaeth i Gydgysylltwyr Cyfuno..... Tudalen 26
- Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i adolygu cynnydd yn flynyddol yn erbyn ei chanlyniadau yng Nghynllun Corfforaethol 2018-2023 o ran ehangu mynediad at y celfyddydau. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad ar hyn i'r Pwyllgor. .... Tudalen 26
- Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru, drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrrff celfyddydau a diwylliannol sy'n cael cyllid cyhoeddus nodi eu hamcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn eu cynlluniau strategol. Dylai'r rhai sy'n cael cyllid hefyd nodi sut y maent yn bwriadu cydgynllunio gweithgareddau a chynnwys creadigol gyda'r cynulleidfaoedd targed hyn..... Tudalen 33
- Argymhelliad 6.** Dylid ystyried cynyddu mynediad i'r lleoliadau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i'r rhai sydd mewn tlodi neu sydd mewn perygl o allgáu cymdeithasol fel un o amcanion Trafnidiaeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau i Trafnidiaeth Cymru ymrwymo i bartneriaethau â sefydliadau diwylliannol ar gyfer digwyddiadau a/neu leoliadau penodol i drefnu bod mynediad i'w gweithgareddau am ddim neu â chymhorthdal. Dylid cyflwyno adroddiad ar y cynlluniau peilot hyn i'r Pwyllgor..... Tudalen 33
- Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid ar gyfer rhaglen Cyfuno i alluogi cyfranogwyr i hawlio costau cysylltiedig megis trafndiaeth.  
..... Tudalen 33
- Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor ar y cynigion ar gyfer datblygu set ddata ansoddol ar raglen Cyfuno a'r amserlen i'w hymgorffori yn y fethodoleg werthuso. .... Tudalen 40

## 1. Cyflwyniad

- 1.** Sefydlwyd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): diwylliant, y celfyddydau, yr amgylchedd hanesyddol, y Gymraeg, cyfathrebu, darlledu a'r cyfryngau.
- 2.** Dewisodd y Pwyllgor archwilio rôl y celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol. Rhwng 5 Hydref a 14 Rhagfyr 2018, gofynnodd y Pwyllgor i bobl ysgrifennu atom, gan nodi'r canlynol:
  - Pa mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru wedi bod o ran gwella cyfranogiad pobl mewn tlodi mewn diwylliant a'u mynediad ato?
  - Pa mor effeithiol y mae ymdrechion cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru (sef y Cyngor Celfyddydau, Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru) a Llywodraeth leol wedi bod wrth ddefnyddio diwylliant i drechu tlodi?
  - Pa effaith y mae rhaglen Cyfuno Llywodraeth Cymru wedi'i chael ar ddefnyddio diwylliant i drechu tlodi?
  - Pa mor effeithiol mae rhaglenni arloesi Cyfuno wedi bod wrth ysgogi cydweithrediad lleol?
- 3.** Ym mis Ionawr 2019, ymwelodd aelodau'r Pwyllgor â gweithgareddau rhaglenni Cyfuno a chw'rdd â'r cydgysylltwyr yn eu hetholaethau. Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2019, bu'r Pwyllgor yn trafod y cwestiynau uchod yn fanylach. Mae rhestr o'r rhai a gyfrannodd dystiolaeth ysgrifenedig a'r rhai a ddaeth i mewn i siarad â'r Pwyllgor i'w gweld yn Atodiad A.

## Crynodeb

- 4.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r materion a drafodwyd, gan gynnwys:
  - natur y gwaith i annog cydweithredu rhwng sefydliadau yn y maes gwaith hwn, gan gynnwys rhaglen Cyfuno Llywodraeth Cymru;
  - cyllid cyhoeddus ar gyfer y maes gwaith hwn;

- y ffyrdd y mae mwy o fynediad at ddiwylliant, y celfyddydau a threftadaeth yn cael ei hyrwyddo
- gwerthuso gweithgarwch yn y maes gwaith hwn.

**5.** Mae'r Pwyllgor yn gwneud argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru ar bob un o'r pynciau hyn.

## 2. Cydweithredu

- 6.** Clywodd y Pwyllgor am lawer o enghreifftiau gan yr holl sefydliadau a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn o'r gwaith allgymorth y maent yn ei wneud gyda grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol, megis yr henoed, y rhai mewn tlodi a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Cafwyd llawer o sylwadau a bwysleisiodd yr angen i sefydliadau mwy o faint weithio gyda'r cymunedau hyn, yn hytrach na mynd i mewn iddynt.
- 7.** Roedd galwadau mynych i gynnwys y gynulleidfa darged wrth raglennu a chynllunio digwyddiadau'r celfyddydau. Er enghraifft, awgrymodd Mia Rees, Prince's Trust – Cymru, y dylai sefydliadau ofyn a oes grŵp cymunedol bach y gallent helpu i'w feithrin a'i ddatblygu'n rhywbeth mwy sylweddol a mwy ystyrlon, yn hytrach na mynd i mewn a gwneud rhywbeth cwbl newydd.<sup>1</sup> Dywedodd ei fod yn debygol o gael effaith well yn y tymor hwy a hefyd ei fod yn y gymuned – nid yw hyn yn dod o Gaerdydd i ddangos i bobl sut i wneud y gelf.<sup>2</sup>
- 8.** Siaradodd Allan Herbert, Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon, am yr angen i ymgynghori â'r cynulleidfaoedd targed ar eu blaenoriaethau. Pwysleisiodd yr angen i gynulleidfaoedd gyfrannu at rywbeth y maent am ei gyflawni.<sup>3</sup> Hefyd, rhybuddiodd fod angen cynnwys cymunedau yn y prosesau rhaglennu, nid fel y gynulleidfa yn unig, er mwyn ennyn eu diddordeb yn y defnydd o'r celfyddydau.
- 9.** Soniodd Arielle Tye, ProMo Cymru, hefyd am yr angen i gynnwys pobl ar lawr gwlad wrth gynllunio digwyddiadau. Dywedodd y canlynol:

“it's actually designing things with people at their level, and then they are just engaged from the beginning, rather than having a programme that... you're presenting it to people, and then you've immediately got a barrier because there's so much effort that goes into trying to get people to come... And that's really stressful and difficult, whereas, actually, when you design something with people in the first place, and use a more service-led co-production approach, people come because they're involved and it was designed with them in mind. It's a completely different approach.”<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Paragraff 97, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 6 Mawrth 2019

<sup>2</sup> ibid

<sup>3</sup> Paragraff 34 cyfarfod Pwyllgor DGCh, 14 Mawrth 2019

<sup>4</sup> Paragraff 122, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 8 Mai 2019

**10.** Gwnaeth Gareth Coles, Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, sylw tebyg ar yr angen i gynnal buddion prosiectau ar ôl iddynt ddod i ben. Dywedodd y canlynol:

“if there’s an intervention from a large arts organisation in the community, ‘What happens next? How is that sustained and embedded within the community?’ So, some consideration of maybe forming groups, maybe building that link so it’s sustained, so it doesn’t feel like a fantastic opportunity that then comes to an end, but so that’s built in right from the start, that embeddedness within a community, would be really, really helpful.”<sup>5</sup>

**11.** O ran parhau â buddion ymyriadau, siaradodd Michael Garvey, Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC, am bwysigrwydd cael cefnogaeth i’r gwaith allgymorth y mae ei sefydliad yn ei wneud:

“if preparation work hasn’t been done ahead of time and there’s no legacy left as a result with teachers, with community workers, with local youth orchestras or whatever it might be, the actual activity is almost wasted entirely. And that infrastructure therefore has to be in place.”<sup>6</sup>

**12.** Siaradodd Kathryn Williams, Rubicon Dance, am bwysigrwydd meithrin a chynnal perthnasoedd tymor hir â chymunedau a rhoddodd enghraifft o waith y maent wedi bod yn ei wneud mewn ysgol yn Adamsdown yng Nghaerdydd ers 38 mlynedd. Dywedodd y canlynol:

“I think there is a real case for organisations working in partnership, but there needs to be a real understanding of partnership... because communities need to trust you, and if you’re going to come in and then you’re going to come out, they’re not going to trust you.”<sup>7</sup>

**13.** Dywedodd hefyd nad oes cynulleidfaoedd “anodd eu cyrraedd”, gan ddweud eu bod yn meddwl am y sefydliadau hyn fel rhai pell iawn, a bod hynny wedi llywio’r ffordd y maent yn gweithio fel sefydliad. Maent yn mynd â’u gwaith at bobl yn fwriadol.<sup>8</sup>

---

<sup>5</sup> Paragraff 20, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 6 Mawrth 2019

<sup>6</sup> Paragraff 60, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 8 Mai 2019

<sup>7</sup> Paragraff 86, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 3 Ebrill 2019

<sup>8</sup> Paragraff 76, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 3 Ebrill 2019

## 2. 1. Cyfuno

**14.** Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo cydweithredu rhwng cyrff cenedlaethol - megis y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru - a grwpiau cymunedol ac ysgolion drwy raglen Cyfuno: Creu Cyfleoedd Drwy Ddiwylliant, (rhaglen Cyfuno) a lanswyd yn 2015.

## 2. 2. Cefndir rhaglen Cyfuno

**15.** Ym mis Gorffennaf 2013, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Farwnes Kay Andrews OBE ymchwilio i sut y gallai cyrff diwylliant a threftadaeth ar draws Cymru gyfrannu'n fwy effeithiol at leihau tlodi. Cyhoeddwyd ei hadroddiad: Diwylliant a Thlodi ym mis Mawrth 2014. Mae'n gwneud 33 o argymhellion ar gyfer sefydliadau sy'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth yng Nghymru, o Lywodraeth Cymru i'r sefydliadau diwylliannol eu hunain. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â phedair prif thema:

- Cyfleoedd newydd i ysgogi newid, mewn cydweithrediad, drwy wybodaeth ac adnoddau - yn genedlaethol ac yn lleol iawn;
- Cyfleoedd newydd i ddwyn polisiau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ynghyd mewn ffyrdd ymarferol, o ddylunio polisi, i ddarparu'r polisi yn ymarferol - yn genedlaethol ac yn lleol.
- Ffyrdd newydd o leihau rhwystrau a chynyddu mynediad at y sefydliadau diwylliannol cenedlaethol, a chreu fframweithiau newydd ar gyfer ymgysylltiad a darpariaeth leol;
- Adnoddau, cyfleoedd hyfforddi a chymhellion newydd i ddarparu cymorth ar y cyd a ffyrdd gwell o gyrraedd plant, pobl ifanc ac oedolion.

**16.** Mae'r adroddiad yn nodi bod "llawer o'r hyn sy'n cael ei gynnig yn ddim mwy na gwneud i fwy o gyfalaf ac adnoddau dynol Cymru i weithio'n galetach".<sup>9</sup>

**17.** Mewn ymateb, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen Cyfuno - "nifer bach o ardaloedd arloesi ledled Cymru, lle y bydd sefydliadau cenedlaethol yn cydweithio ag arweinwyr awdurdodau lleol a chymunedau i wireddu'r weledigaeth graidd a nodir yn yr adroddiad".<sup>10</sup> Tynnodd sylw na fyddai angen cyllid ychwanegol i weithredu argymhellion yr adroddiad, gan nodi'r canlynol:

---

<sup>9</sup> Tudalen 8, Diwylliant a Thlodi

<sup>10</sup> Tudalen 5, ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad Diwylliant a Thlodi

---

“Ni fydd y gwaith o weithredu llawer o'r argymhellion hyn yn golygu y bydd costau ychwanegol i'r sector diwylliannol. Mae'r argymhellion yn ymwneud â sicrhau bod agendâu a blaenoriaethau'n cyd-fynd â'i gilydd, a'r angen i gyfuno'r defnydd o'r adnoddau a'r ffrydiau ariannu sy'n bodoli eisoes.”<sup>11</sup>

**18.** Ar hyn o bryd, cyllid y rhaglen yw £287,000 sy'n cynnal gweithgarwch cydgysylltwyr Cyfuno yn wyth ardal Cyfuno: Gwynedd, Conwy, Torfaen a Chaerffili, Caerdydd, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin a Chasnewydd.

**19.** Gofynnwyd i'r cyrff arweiniol ddarparu rhaglenni strategol 2 flynedd drwy ddefnyddio diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau i gefnogi cyflogadwyedd, grymuso, y blynyddoedd cynnar, ac iechyd a llesiant – i'r rhai sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, yn ogystal â bwrw ymlaen â sawl menter, gan gynnwys lleoliadau gwirfoddoli a hyfforddi.

### 2. 3. Cydweithredu a Cyfuno

**20.** Nododd sawl ymatebwr i'r ymgynghoriad fwy o gydweithio fel mantais o brosiect Cyfuno. Mae CLILC yn nodi bod gwerthusiad y Llywodraeth o raglen Cyfuno wedi darganfod “bod sefydliadau diwylliannol yn nodi mwy o gydweithio fel un o brif fanteision y rhaglen”.<sup>12</sup>

**21.** Mae'r Cyngor Celfyddydau yn dweud bod Cyfuno wedi helpu i ddatblygu cysylltiadau agosach ac annog mwy o gydweithio a rhwydweithio rhwng sectorau'r celfyddydau a threftadaeth/amgueddfeydd. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

“In its second iteration, the Fusion model - which involves the funding of a coordinator in each partner region - seems to be the best use of fairly modest funds. The coordinators are increasingly proving effective brokers, able to straddle sectors, spot opportunities and stimulate collaboration.

The national networking days, training and cross-sector working is clearly, in our opinion, a strength of the programme.”<sup>13</sup>

**22.** Mae tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn dweud y canlynol:

---

<sup>11</sup> Tudalen 4, ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad Diwylliant a Thlodi

<sup>12</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC

<sup>13</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig y Cyngor Celfyddydau

“mae tystiolaeth anecdotaidd gan sefydliadau partner yn dangos bod yr holl sefydliadau sy'n ymwneud â Cyfuno o'r farn bod cydgysylltwyr yn hollbwysig i lwyddiant y rhaglen.”<sup>14</sup>

a'r canlynol:

“Mae'r rhaglen Cyfuno yn parhau i gynnig cyfleoedd i chwalu'r rhwystrau yn y sectorau diwylliant a threftadaeth. Er ei bod yn gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol, bydd angen cymorth ac adnoddau ychwanegol arni er mwyn cynnal ac ehangu ei heffaith yn y dyfodol.”<sup>15</sup>

**23.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth y canlynol wrth y Pwyllgor:

“mi garwn i weld Cyfuno yn dod yn fwy cenedlaethol, ac yn fwy o arfer da cyffredinol yng Nghymru.”<sup>16</sup>

a'r canlynol

“...it would be good if we could have more co-ordinators who could do this all more generally.”<sup>17</sup>

**24.** O ran hyrwyddo cydweithredu rhwng sefydliadau cenedlaethol a chymunedol, dywedodd Lesley-Anne Kerr, Llywodraeth Cymru, y canlynol wrth y Pwyllgor:

“I think the role of the co-ordinators is absolutely key, and what they're doing on the ground is actually developing partnerships and developing sustainable partnerships, and they're actually embedding a way of working that we're seeing as being really, really effective. So, for us, that does remain an absolutely key role.”<sup>18</sup>

Ein safbwynt ni

---

Clywodd y Pwyllgor am bwysigrwydd cydweithredu â chymunedau wrth gynllunio a darparu gweithgareddau i gynyddu cyfranogiad diwylliannol.

---

<sup>14</sup>Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

<sup>15</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

<sup>16</sup> Paragraff 49, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 22 Mai 2019

<sup>17</sup> Paragraff 79, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 22 Mai 2019

<sup>18</sup> Paragraff 96, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 22 Mai 2019



Y sylw mynychaf a gododd oedd yr angen i gynnwys y gynulleidfa darged wrth raglennu a chynllunio'r digwyddiadau, yn hytrach na disgwyl iddynt ddod oherwydd bod y digwyddiad yn lleol a bod y mynediad am ddim.

Clywodd y Pwyllgor am yr angen i gynhyrchu cynnwys ar y cyd, yn hytrach na mynd â'r cynnwys presennol i grwpiau "anodd eu cyrraedd", sydd o'r farn bod y sefydliadau sy'n ymgysylltu â hwy yr un mor "anodd eu cyrraedd". Roedd pwysigrwydd cydweithredu o'r gwaelod i fyny yn thema dra phwysig. Gwnaed y pwynt nad yw'n anodd denu cynulleidfaoedd pan gânt eu cymell i gymryd rhan mewn rhywbeth lle y maent wedi dewis y cynnwys.

Clywodd y Pwyllgor fod angen mwy o gydnabyddiaeth hefyd o'r mynegiant artistig sy'n cael ei greu gan y cynulleidfaoedd targed. Efallai y byddai'n werth ymchwilio i'r ffordd y mae sefydliadau sy'n cael eu cefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn adeiladu ar hyn ac yn ei annog. Drwy annog eu haelodau portffolio i ddechrau o safbwynt y cynulleidfaoedd y maent yn dymuno ymgysylltu â hwy, gallant ehangu cwmpas y creadigrwydd y maent yn ei gefnogi.

Clywodd y Pwyllgor hefyd nad yw bob amser yn bosibl datblygu perthynas tymor hir rhwng sefydliadau'r celfyddydau a grwpiau cymunedol, megis ysgolion neu ganolfannau dydd, er gwaethaf yr ymdrechion gorau. Gall hyn fod oherwydd nad oes gan y cymunedau'r arbenigedd neu'r strwythurau, megis mynediad at addysg ac offerynnau cerdd mewn ysgolion. Mewn achosion o'r fath, dywedwyd wrth y Pwyllgor y gall gwaith sefydliadau megis y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama, Opera Cenedlaethol Cymru a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC fod yn sbardun ar gyfer creadigrwydd pobl ifanc.

Fodd bynnag, cytunodd pawb a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn ei bod yn well annog sefydliadau celfyddydau a ariennir gan y Llywodraeth i sefydlu perthnasoedd tymor hir â'r cymunedau y ceisir ymgysylltu â hwy. Clywodd y Pwyllgor am y rhwystredigaeth a deimlir oherwydd bod sefydliadau'n cynnal gweithgareddau ymgysylltu heb yr adnoddau i barhau â'r gwaith hwnnw.

Mae angen archwiliad priodol o sut y gall ein sefydliadau celfyddydau cenedlaethol gydweithio â grwpiau cymunedol. Fel y prif gorff cyllido, byddai Cyngor Celfyddydau Cymru mewn sefyllfa ddelfrydol i arwain gweithdy ar y pwnc hwn. Mae'r awgrymiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn cynnwys cyflwyno dull cyllidebu cyfranogol a mewnbwn gan gynrychiolwyr grwpiau celfyddydau cymunedol i'w prosesau cynllunio strategol.

## **Seilwaith fel hwylusydd cydweithredu**

Mae cyfranogiad y gymuned mewn gweithgareddau diwylliannol yn dibynnu ar y seilwaith sy'n angenrheidiol i gynnal y gweithgareddau diwylliannol hyn. Mae hyn yn amrywio o neuaddau eglwys i sinemâu a neuaddau cyngerdd. Fel y dywedodd Michael Garvey, Cerddorfa Genedlaethol y BBC, gallai anfon y gerddorfa i unrhyw le yng Nghymru ond, os nad yw'r seilwaith yno, nid oes bron dim diben mynd.

Dylai Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol archwilio'r ffyrdd sydd ar gael iddynt gynnal a gwella'r seilwaith hwn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cynlluniau cyllido megis Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru yn cael eu hariannu'n dda ac yn hygyrch. Er ein bod yn ymwybodol o'r heriau cyllidebol y mae'r awdurdodau lleol yn eu hwynebu, dylent fod yn ymwybodol, pan fydd cyfleusterau diwylliannol y cyngor yn cau, ei bod yn debygol o gael yr effaith fwyaf ar y cymunedau tlotaf, sy'n dibynnu ar y lleoliadau hyn i gael mynediad at weithgareddau diwylliannol. Os oes angen cau cyfleusterau, mewn amgylchiadau eithriadol, dylai awdurdodau lleol weithio gyda sefydliadau arbenigol, megis y Cyngor Celfyddydau a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, i geisio sicrhau bod yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo'n esmwyth i sefydliad cymunedol.

## **Rhannu cyfalaf cymdeithasol**

Mae ardaloedd cefnog yn aml yn gyfoethog o ran cyfalaf cymdeithasol, yn ogystal â chyfalaf ariannol. Mae argaeledd sgiliau proffesiynol ac, yn hollbwysig, amser, mewn ardaloedd mwy cefnog yn golygu, fel y dywedodd John Hallam, Maindee Unlimited, wrth y Pwyllgor, yn aml mae'n haws mewn ardaloedd cyfoethog fel Penarth i annog pobl i wirfoddoli ar y ffair ar ddydd Sadwrn, neu achub y pier, neu beth bynnag. Yn aml, mae'r ardaloedd hyn yn agos iawn yn ddaearyddol at ardaloedd llai cefnog, megis cymunedau cyfagos Pontcanna a Glan yr Afon yng Nghaerdydd.

Hoffai'r Pwyllgor weld mwy o gysylltiadau rhwng ardaloedd mwy cefnog a rhai llai cefnog gerllaw, lle mae cyfalaf cymdeithasol un yn cael ei ddefnyddio er budd y llall. Gallai dyfarnwyr grantiau archwilio'r cysyniad hwn: er enghraifft, sicrhau bod grantiau ar gyfer gweithgareddau diwylliannol mewn ardaloedd mwy cefnog yn amodol ar y bobl sydd dan sylw yn gwirfoddoli eu hamser a'u sgiliau i helpu cymunedau llai cefnog yn yr ardal leol. Heb os, byddai perthynas o'r fath o fudd i'r ddwy ardal – gan fod sgiliau a phrofiadau'n llifo i'r ddau gyfeiriad – wrth helpu i gulhau'r bwlch rhwng y ddwy o ran mynediad at weithgareddau diwylliannol a'u cynnwys.

## Cyfuno

Cydnabu Llywodraeth Cymru bwysigrwydd creu partneriaethau tymor hir. Mae wedi ceisio hyrwyddo cydweithredu rhwng y sefydliadau artistig, diwylliannol a threftadaeth mwy o faint a grwpiau cymunedol, elusennau ac ysgolion llai o faint â rhaglen Cyfuno: Creu cyfleoedd drwy ddiwylliant.

Roedd digon o dystiolaeth o lwyddiant rhaglen Cyfuno wrth hyrwyddo cydweithredu ar draws sefydliadau diwylliannol yng Nghymru. Cytunodd pawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad ar bwysigrwydd y cydgysylltwyr wrth feithrin y partneriaethau hyn.

Mae'r hyn a gyflawnwyd yn ystod pum mlynedd gyntaf y rhaglen wedi creu argraff dda ar y Pwyllgor. Mae'r rhaglen wedi'i hadolygu'n flynyddol, ond, ar ôl pum mlynedd byddai'r rhaglen gyfan yn cael gwerthusiad ar raddfa fawr. Mae'n werth cymryd yr amser i gydnabod ei llwyddiant ac ystyried sut y gellir ei gwella. Mae'r Pwyllgor wedi awgrymu meysydd y dylai'r adolygiad eu cwmpasu, gan gynnwys y canlynol:

- Yr opsiynau ar gyfer cynhyrchu ac ariannu ar y cyd. Dylid ystyried cronni adnoddau o adrannau eraill y Llywodraeth, megis lechyd, Addysg ac Adfywio Economaidd.
- Dylai'r cyllid ar gyfer swyddi'r cydgysylltwyr gael ei sicrhau am dair i bum mlynedd.
- Ymchwiliad i fanteision cyllid ychwanegol ar gyfer costau cysylltiedig – megis trafndiaeth a gofal plant – i'r cyfranogwyr. Dylai'r ymchwiliad hwn ystyried a fyddai'r cyllid hwn yn werth am arian a sut y gellid ei weinyddu.
- Dylai'r gwerthusiad ofyn i'r cyfranogwyr sut y gellir ei wella yn eu barn hwy.
- Dylid adolygu rôl y cydgysylltwyr, a dylid rhoi disgrifiadau swydd iddynt.
- Dylid cael rhwydwaith ffurfiol i'r cydgysylltwyr rannu arfer gorau.
- Dylid adolygu'r amcanion gwreiddiol i weld a ydynt yn dal i fod yn werthfawr neu a all allbynnau mwy cyfannol ddisodli rhai.
- Dylid cynnal asesiad i ba raddau y mae'r rhaglen wedi cyflawni'r bwriad y tu ôl i'r 33 o argymhellion yn yr adroddiad "Diwylliant a Thlodi".

- Dylid cynnal adolygiad o'r fethodoleg werthuso a'r meini prawf i benderfynu a oes mesurau mwy priodol sy'n cofnodi'r daith gyfan, nid pen y daith yn unig. Hynny yw, gwerthusiad sy'n adlewyrchu'n well y cynnydd mewn sgiliau cymdeithasol a chanlyniadau anghyffyrddadwy eraill.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwerthusiad ar raddfa fawr o raglen Cyfuno sy'n asesu'r amcanion gwreiddiol, y cyllid a'r gwerthusiad.

**Argymhelliad 2.** Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau bod holl aelodau Portffolio Celfyddydol Cymru (ei sefydliadau a ariennir gan refeniw) yn gweithio gyda'r cymunedau gwahanol y maent yn eu gwasanaethu i gynllunio eu rhaglen weithgareddau.


## 3. Cyllid

### 3.1. Cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau

**25.** Mae'r mwyafrif helaeth o ddyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y celfyddydau'n cael eu dosbarthu i Gyngor Celfyddydau Cymru: £31.2 miliwn o refeniw o £31.7 miliwn a ddyrannwyd yn y maes hwn yng nghyllideb ddrafft 2017-18. Cafwyd cynnydd 3.5 y cant mewn cyllid refeniw yn y maes hwn, mewn termau arian parod, o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2016-17, ac mae wedi parhau i fod yr un peth ers hynny.

#### Public funding of the Arts Council for Wales (£m)

Grant-in-aid funding from the Welsh Government and Lottery funding



\* Grant-in-aid funding from the Welsh Government is restricted and unrestricted funding combined

Source: Arts Council for Wales Annual Reports and Accounts

**26.** Mae cyllid Llywodraeth Cymru i'r Cyngor Celfyddydau wedi gostwng 18 y cant mewn termau real rhwng 2011-12 a 2017-18<sup>19</sup>. Mae cyfran y Cyngor Celfyddydau o elw'r Loteri hefyd wedi gostwng ychydig iawn mewn termau real rhwng 2011-12 a 2017-18. Caiff y rhan fwyaf o gyllid y Cyngor Celfyddydau ei drosglwyddo ganddo i sefydliadau ac unigolion y mae'n eu hariannu naill ai'n rheolaidd neu ar achlysuron untro.

**27.** Portffolio Celfyddydol Cymru yw'r enw a roddwyd i'r **67 o sefydliadau celfyddydol** sy'n cael cyllid refeniw gan y Cyngor Celfyddydau. Mae aelodau'r portffolio'n amrywio o gwmnïau mawr, sy'n bwysig yn rhyngwladol (megis

<sup>19</sup> Cyfrifiadau ar sail datchwyddyddion CMC y DU.

National Theatre Wales, Canolfan Mileniwm Cymru ac Opera Cenedlaethol Cymru) i sefydliadau bach, cymunedol (megis Plant y Cymoedd, Cwmni'r Frân Wen a Theatr Felinfach). Yn 2017/18, cyllid Portffolio Celfyddydol Cymru oedd £26.7 miliwn (gostyngiad tua 4 y cant ers 2013/14).

**28.** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn nodi nad yw pawb yn manteisio ar yr arian hwn yn gyfartal. Mae'n dyfynnu ystadegau ledled y DU a gynhyrchwyd gan Gomisiwn Warwick sy'n tynnu sylw at y ffaith mai 8 y cant o'r bobl gyfoethocaf, sydd ag addysg well a'r amrywiaeth ethnigrwydd leiaf o gymdeithas yw bron hanner y gynulleidfa ar gyfer cerddoriaeth fyw a bron traean o'r bobl sy'n mynd i theatrau ac orielau. Nododd hefyd duedd ar i lawr yn lefelau cyfranogiad yn y celfyddydau.<sup>20</sup>

**29.** Mae awdurdodau lleol hefyd yn ariannu sefydliadau celfyddydol. Ond mae hwn yn faes gwariant dewisol, ac mae wedi lleihau oherwydd bod cyllidebau awdurdodau lleol wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cyllid awdurdodau lleol i Bortffolio Celfyddydol Cymru wedi gostwng o £11 filiwn yn 2011-12 i £5.1 miliwn yn 2016-17.

**30.** Ynghylch gwariant awdurdodau lleol, ysgrifennodd CLILC y canlynol:

“mae blynyddoedd olynol o galedi ariannol wedi ei gwneud hi'n gynyddol anodd i awdurdodau lleol gefnogi gweithgareddau diwylliannol... [Mae] Llyfrgelloedd wedi profi toriadau o 35% ers 2009/10 tra bod diwylliant ac adloniant wedi profi toriadau o 42%. I gymhlethu'r mater, mae hi wedi bod yn anodd atynnu cyllid Loteri i gefnogi'r gweithgareddau a gynhelir gan gyrff cyhoeddus. Yn aml, ystyrir hwy fel cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol ac felly ni ystyrir hwy'n addas ar gyfer cefnogaeth gan y Loteri.”<sup>21</sup>

**31.** Hefyd, tynnodd Gareth Coles, Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, sylw at effeithiau toriadau awdurdodau lleol ar seilwaith sy'n ei gwneud yn bosibl cymryd rhan yn y celfyddydau. Dywedodd y canlynol:

“The problems come when things like buildings or these enablers that enable people to participate in their local cultural activity are affected, and maybe indirectly... These... elements of the infrastructure, like community transport, even access to public toilets and certainly buildings, that's where people will find that their ability to participate in

---

<sup>20</sup> Cynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru 2018-2023

<sup>21</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC

their local communities with others, like mine did on creative pursuits, will definitely be affected.”<sup>22</sup>

## Cyllid ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol

**32.** Ymchwiliodd y Pwyllgor i sut y caiff cyllid cyhoeddus ei anelu at fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn benodol.

**33.** Fel y prif ddsbarthwr cyllid, nododd y Cyngor Celfyddydau fod mynd i'r afael â thlodi drwy ddiwylliant wedi bod yn amcan i Gyngor Celfyddydau Cymru ers blynnyddoedd lawer, ond nad yw'n cyrraedd y bobl sy'n profi canlyniad anfantais economaidd neu gymdeithasol er gwaethaf yr ymyriadau hyn.<sup>23</sup>

**34.** Yn ddiweddar, mae wedi gwneud ei amcanion yn y maes hwn yn flaenoriaeth uwch. Dywed ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2018 - 2023 y canlynol:

“Ymddengys fod gormod o rwystrau o hyd sy'n atal mynediad i'r celfyddydau, boed y rheiny'n rhwystrau diwylliannol, cymdeithasol neu economaidd. Bydd dymchwel y rhwystrau hyn yn un o'n blaenoriaethau diffiniol.”<sup>24</sup>

**35.** Un o'r targedau y mae wedi'u gosod i'w hun ar gyfer 2023 yw y “Bydd y bwlch rhwng y rheiny yn y sectorau cymdeithasol mwyaf a lleiaf ffyniannus fel cynulleidfaoedd a chyfranogwyr wedi culhau”.<sup>25</sup> Gellir casglu anhydrinedd y broblem o'r dystiolaeth yn yr un sesiwn gan y Cyngor Celfyddydau a nododd y canlynol:

“It's been one of our priorities in the last corporate plan and the corporate plan before that, so it has been there, and we've pushed and we have been pushing the agenda and we've [been] delivering projects and programmes ourselves that have really tackled that.”<sup>26</sup>

**36.** Esboniodd Diane Hebb, Cyngor Celfyddydau Cymru, sut y mae cyllid yn gysylltiedig â chyflawni canlyniadau ar gyfer sefydliadau a noddir:

“We enter into funding agreements with those organisations every year... As part of those funding agreements, we specifically ask

---

<sup>22</sup> Paragraff 24, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 6 Mawrth 2019

<sup>23</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Celfyddydau Cymru

<sup>24</sup> Tudalen 6, Cynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru 2018-2023

<sup>25</sup> Tudalen 10, Cynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru 2018-2023

<sup>26</sup> Paragraff 72, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 2 Mai 2019

questions about... how they're targeting disadvantaged communities. So, we expect, through the funding agreements, for those organisations to be delivering on that agenda... so we have organisations that are specifically funded to do that kind of work—our community arts organisations. We have other organisations that are delivering specific projects and programmes.”<sup>27</sup>

**37.** Fel corff cyllido mwyaf y celfyddydau yng Nghymru, beirniadwyd y Cyngor Celfyddydau am y ffordd roedd yn ymddangos ei fod yn ffafrio sefydliadau celfyddydol cenedlaethol mwy o faint, yn hytrach na rhai llai, yn y gymuned. Er enghraifft, awgrymodd ProMo Cymru y dylai'r Cyngor Celfyddydau ailwerthuso'r ffordd y mae ei gyllid yn cael ei ddosbarthu rhwng sefydliadau mawr, a sefydliadau llawr gwlad sydd wedi'u hymgorffori mewn cymunedau.<sup>28</sup>

**38.** Nododd Mia Rees, Prince's Trust – Cymru, wrth wneud toriadau cyllid, nad oedd y Cyngor Celfyddydau wedi ystyried y gwaith ymgysylltu cymunedol penodol a wneir gan sefydliadau:

“One of the concerns that I have about the way that the arts council funds is—so, for example, in the last tranche, they basically just renewed everybody's funding at a slightly lower level; they didn't really dig into the community work that all of those different groups were doing and really analyse the growth and potential and engagement that those different groups were doing.”<sup>29</sup>

### 3. 2. Cyllid ar gyfer rhaglen Cyfuno

**39.** Gwnaeth y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwiliad sylwadau ar gyllid rhaglen Cyfuno, sef £287,000 y flwyddyn ac sy'n ariannu swyddi'r cydgysylltwyr. Dywedodd llawer fod prinder cyllid yn ffactor cyfyngol ar yr hyn y gellid ei gyflawni. Dywedodd Nia Williams, Amgueddfa Cymru, y canlynol:

“Dwi'n meddwl bod eisiau inni feddwl ynglŷn â chynyddu'r ariannu; mae'r arian yn fach iawn.”<sup>30</sup>

**40.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Amgueddfa yn dweud bod golwg tymor hwy yn hanfodol gan fod datblygu perthnasoedd dibynadwy rhwng partneriaid yn cymryd amser ac yn gofyn buddsoddiad ymlaen llaw. At hynny, mae'n dweud bod

---

<sup>27</sup> Paragraff 4, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 2 Mai 2019

<sup>28</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig ProMo Cymru

<sup>29</sup> Paragraff 29, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 6 Mawrth 2019

<sup>30</sup> Paragraff 244, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 14 Mawrth 2019



angen llawer o fewnbwn a buddsoddiad parhaus ar gyfer gwaith penodol, yn enwedig gyda chymunedau sydd â nodweddion gwarchoddedig.<sup>31</sup>

**41.** Nododd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, er ei fod yn frwdfrydig dros y gwaith roedd Cyfuno wedi'i arwain i'w wneud, yr her o ran gwneud gwaith yn y maes hwn o ystyried faint o'i gyllid a oedd eisoes yn cael ei ddyrannu i dasgau craidd:

“Our core funding is designed to do very specific tasks, there's very little discretionary funding for doing this kind of work.”<sup>32</sup>

**42.** Soniodd Tina McMahon, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, hefyd am yr angen am gyllid tymor hir:

“The problem with any grant funding is it's not sustainable... in the long term... It's more about mainstreaming these types of things than it is about actually putting pots of money that have particular criteria and at the end of two years, they're gone. I'm not sure that that's really beneficial, particularly in the communities where we work. And, actually, changing the cultural aspirations of a community can't happen in two years. So, you find that you start things with grant funding, then the funding ends, and how then do you continue that? Often, you've started to make inroads, but... I'm not sure that the grants that are available are particularly geared up to support the anti-poverty agenda.”<sup>33</sup>

**43.** Dywedodd y Farwnes Kay Andrews OBE, y canlynol wrth wneud sylwadau ar ddyfodol y rhaglen:

“it needs some sort of formal structure and sustainable funding. Sustainable funding is the key. Predictable three-to-five-year funding, actually, would make all the difference.”<sup>34</sup>

**44.** Dadleuodd fod yn rhaid i hyn fod yn rhan benodol o bob amcan gan y Llywodraeth. Am y rheswm hwnnw, dylid tynnu arian o gyllidebau adrannol eraill, megis cyllidebau iechyd, adfywio, addysg, tai a chyllidebau rhanbarthol.<sup>35</sup> Galwodd hefyd am fwy o gynhyrchu ac ariannu gweithgareddau ar y cyd rhwng

---

<sup>31</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Amgueddfa Cymru

<sup>32</sup> Paragraff 220, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 14 Mawrth 2019

<sup>33</sup> Paragraff 70, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 20 Mawrth 2019

<sup>34</sup> Paragraff 229, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 10 Gorffennaf 2019

<sup>35</sup> Paragraff 239, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 10 Gorffennaf 2019

sefydliadau. Rhoddodd enghreifftiau o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r Grant Amddifadedd Disgyblion fel awgrymiadau o ffynonellau cyllid ar y cyd.

**45.** Pan ymwelodd Aelodau'r Pwyllgor â phrosiectau Cyfuno, sylw mynych gan gyfranogwyr a chydgysylltwyr oedd bod costau cysylltiedig yn rhwystr cyffredin i gael mynediad at weithgareddau diwylliannol, megis costau trafndiaeth neu ofal plant.

### 3. 3. Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

**46.** Mae papur Llywodraeth Cymru yn nodi'r heriau a ddaw yn sgil trefniadau ariannu tymor byr Cyfuno. Mae'n dweud y canlynol:

“Mae Cyrff Arweiniol a ariennir drwy Grantiau Her Cyfuno wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw cyllid byrdymor yn eu galluogi i gynllunio ar gyfer yr hirdymor nac ychwaith i gadw aelodau medrus a gwybodus o staff a all feithrin cydberthnasau effeithiol a pharhaus â chymunedau, yn ogystal ag oddi mewn iddynt.

Mae yna bryder y gellid colli'r ffocws ar y rhaglen Cyfuno pe byddai'r broses gyllido'n cael ei datganoli i randdeiliaid lleol, yn enwedig o gofio'r pwysau ariannol a wynebir gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, yn y tymor hwy, byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisio darbwylo awdurdodau lleol a'r sector diwylliannol i gefnogi'r rhan hon o'u gwaith craidd. Mae swyddogion wrthi'n gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried cynlluniau i ariannu Cyfuno yn y tymor hwy.”<sup>36</sup>

**47.** Efallai y gellir cyferbynnu'r trefniadau ariannu tymor byr presennol â galwad Llywodraeth Cymru am ymgysylltu Cyfuno i helpu unigolion a chymunedau i fanteisio ar “gyfleoedd diwylliannol a threftadaeth parhaus”.

**48.** Mae papur Llywodraeth Cymru yn nodi'r galwadau am fwy o gyllid:

“Mae'r rhaglen Cyfuno yn parhau i gynnig cyfleoedd i chwalu'r rhwystrau yn y sectorau diwylliant a threftadaeth. Er ei bod yn gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol, bydd angen cymorth ac adnoddau ychwanegol arni er mwyn cynnal ac ehangu ei heffaith yn y dyfodol.”<sup>37</sup>

---

<sup>36</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

<sup>37</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

**49.** Mewn ymateb i'r alwad gan sefydliadau am gyllid tymor hir, dywedodd Jason Thomas, Llywodraeth Cymru, y canlynol:

“there’s undoubtedly a commitment to try and do that, but... we’re not able to do that at the moment. We’ve got more certainty over capital funding, but in terms of revenue funding we’ve had to do our best to come up with a model that will give that certainty, but where we stand at the moment we’re just not able to do that, although I think everybody recognises that it would be beneficial to do so.”<sup>38</sup>

**50.** Pan ofynnwyd iddo wneud sylwadau ar y dosbarthiad cyllid cyhoeddus rhwng sefydliadau canolog mawr a grwpiau cymunedol, dywedodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth y canlynol:

“I don’t think it’s either/or. I think what I would say is that the value of the expertise that we have in our national institutions... the museums and galleries, and... the national library as a national resource—. One of the things I’m looking... is to do even more in partnership with local museums and indeed with the library service generally, so that people can benefit, through the partnership, from the experience that these organisations have.”<sup>39</sup>

## Ein safbwynt ni

---

Clywodd y Pwyllgor am yr angen am ymrwymadau cyllid tymor hwy a natur y proffil cyllid cyhoeddus yr ymddengys ei fod ar gyfer cefnogi sefydliadau cenedlaethol mwy.

Mae cyllid cyhoeddus i'r celfyddydau'n cyflawni nifer o ddibenion. Un ohonynt yw cynnal ein hyrwyddwyr diwylliant blaenllaw. Mae'n bwysig cael digon o gyllid i alluogi ein cerddorfeydd cenedlaethol, ein theatrau, ein hamgueddfeydd, ein cwmnïau dawns a'n sefydliadau diwylliannol a threftadaeth eraill i gystadlu ledled y byd. Mae'n hanfodol cynnal ein proffil ar y llwyfan rhyngwladol. Mae'r uchafbwyntiau diwylliannol sydd gan y wlad hon yn denu ymwelwyr rhyngwladol ac yn cefnogi lluo o fusnesau twristiaeth a hamdden.

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am ddsbarthu cyllid i sefydliadau celfyddydol ac, fel y cyfryw, mae ganddo gryn dipyn o drosoledd o ran cynyddu cyfranogiad o bob sector. Cadarnhaodd Cyngor Celfyddydau

---

<sup>38</sup> Paragraff 104, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 22 Mai 2019

<sup>39</sup> Paragraff 98, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 22 Mai 2019

Cymru fod cynyddu mynediad yn amod o gyllid grant i'r sefydliadau y mae'n eu cefnogi. Fodd bynnag, drwy gydol yr ymchwiliad, nodwyd y cyfeirir y rhan fwyaf o'r arian ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru i gyrff cenedlaethol, mawr yn hytrach na sefydliadau cymunedol, llai. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y cyrff cenedlaethol yn gweithio gyda grwpiau gwirfoddol a chymunedol llai, ond bod y proffil cyllid yn ffafrio'r grwpiau "sefydledig" ar hyn o bryd.

Mewn byd lle y mae adnoddau'n gyfyngedig, mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch sut y caiff yr adnoddau hynny eu dosbarthu. Yn anochel, bydd hyn yn arwain at gydbwysu'r angen am gyllid rhwng sefydliadau cenedlaethol a grwpiau cymunedol.

### **Cyllid tymor hir**

Mae'r rhwymedigaeth ar y sefydliadau cenedlaethol i rannu eu harbenigedd creadigol â chymunedau wedi'i hymgorffori yn eu cytundebau cyllid gyda Chyngor Celfyddydau Cymru. Rhaglen Cyfuno yw'r ffordd y gall partneriaethau rhwng y sectorau ffynnu.

Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn cynnwys ymrwymadau tymor hir i feithrin perthnasoedd sy'n golygu bod angen cyllid tymor hir, diogel. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau cyllid rhaglen Cyfuno i roi sicrwydd deiliadaeth i Cydgysylltwyr Cyfuno.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyllid rhaglen Cyfuno i roi sicrwydd deiliadaeth i Cydgysylltwyr Cyfuno.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i adolygu cynnydd yn flynyddol yn erbyn ei chanlyniadau yng Nghynllun Corfforaethol 2018-2023 o ran ehangu mynediad at y celfyddydau. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad ar hyn i'r Pwyllgor.

## 4. Mynediad a chyfranogiad

**51.** Clywodd y Pwyllgor fod rhwystrau amrywiol sy'n atal pobl mewn tlodi rhag gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol. Nid cost mynediad oedd yr unig un. Mae bron yr holl sefydliadau a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn yn cynnig mynediad am ddim neu â gostyngiad. Mae pobl hefyd yn cael eu hatal rhag cymryd rhan oherwydd cost ac argaeledd trafnidiaeth, seilwaith a'r canfyddiad nad yw gweithgareddau diwylliannol ar eu cyfer.

### Cyfranogiad a phresenoldeb

**52.** Mae ffigurau'r Cyngor Celfyddydau yn dangos bod cyfranogiad yn y celfyddydau i aelodau'r grŵp cymdeithasol ABC1 wedi codi o 84 y cant i 90 y cant rhwng 2011 a 2018. Mae cyfranogiad aelodau'r grŵp cymdeithasol C2DE wedi codi o 77 y cant i 84 y cant dros yr un cyfnod.

**53.** Mae tystiolaeth Sefydliad Bevan yn nodi'r canlynol:

“There is limited research that suggests that improving participation in the arts can be part of the solution to poverty, although on its own it has little effect. Involving people who live in poverty in the production of cultural events can lead to increased confidence and the development of new skills. This can provide an important step in encouraging those who are currently not in work to seek employment opportunities and it can also give confidence to those who are already employed to seek progression opportunities, boosting their incomes.”<sup>40</sup>

**54.** Dywedodd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru y canlynol:

“We also know that cultural participation appeals to people who have rejected formal education, and by engaging in cultural and heritage activities, people can acquire a very broad range of transferable skills without being aware that they are engaged in ‘learning’.”<sup>41</sup>

**55.** Mae ffigurau Cyngor Celfyddydau Cymru yn dangos bod presenoldeb yn y celfyddydau wedi codi o 82 y cant i 92 y cant i'r grŵp cymdeithasol ABC1 rhwng 2012 a 2018. Fodd bynnag, cododd presenoldeb y rhai yn y grŵp cymdeithasol C2DE o 76 y cant i 86 y cant yn ystod yr un cyfnod.

---

<sup>40</sup>Tystiolaeth ysgrifenedig Sefydliad Bevan

<sup>41</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

**56.** Mae tystiolaeth Sefydliad Bevan yn nodi'r canlynol:

“it is less clear whether being in the audience for cultural events has the same benefits as being involved in its production. Whilst [it]... can be an effective way of developing social networks, strong social networks as of themselves do not overcome the challenges faced by families living in poverty... it would appear prudent that projects that seek to find a solution to poverty through the arts should focus on increasing participation in the production rather than the consumption of culture.”<sup>42</sup>

**57.** Mae hefyd yn nodi nad oes gwahaniaeth mawr yn gyfrannol rhwng yr hyn y mae aelwydydd incwm is yn ei wario ar hamdden a diwylliant, ac aelwydydd incwm uwch.<sup>43</sup> Mae aelwydydd â llai o incwm yn gwario llai ar hamdden a diwylliant.

#### 4. 1. Rhwystrau seilwaith a thrafnidiaeth i gyfranogiad a phresenoldeb

**58.** Clywodd y Pwyllgor gan nifer o sefydliadau fod pobl sy'n byw mewn tlodi yn colli cyfleoedd i fynd i ddigwyddiadau celfyddydau hyd yn oed pan fo tocynnau am ddim neu â gostyngiad oherwydd bod cost ac argaeledd trafndiaeth a seilwaith arall megis lleoliadau hygyrch yn eu hatal rhag mynd.

#### 4. 2. Trafnidiaeth

**59.** O'r rhwystrau strwythurol i gymryd rhan, yr un a nodwyd fynyachaf oedd trafndiaeth. Mae ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod llawer llai o bobl sydd ar incwm is yn berchen ar geir.<sup>44</sup> Nododd Sefydliad Bevan y broblem a dywedodd Morag McDermont ac Evan Elliot fod hynny'n un o'r pum rhwystr mwyaf. Ysgrifennodd Age Cymru y canlynol:

“Some older people miss out on socialising or activities because even small charges for these, or the costs of transport, are beyond them.”<sup>45</sup>

---

<sup>42</sup>Tystiolaeth ysgrifenedig Sefydliad Bevan

<sup>43</sup>Tystiolaeth ysgrifenedig Sefydliad Bevan

<sup>44</sup>

[www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/expenditure/datasets/percentageofhouseholdswithcarsbyincomegroupandhouseholdcompositionuktablea47](http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/expenditure/datasets/percentageofhouseholdswithcarsbyincomegroupandhouseholdcompositionuktablea47)

<sup>45</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Age Cymru

**60.** Rhoddodd Opera Cenedlaethol Cymru fwy o fanylion am effaith darpariaeth trafndiaeth ar ei waith gyda phobl ifanc:

“A major barrier for communities accessing our provision is transport links, particularly when we cover such a wide geographical spread across Wales... whilst we provide free transport for both our youth opera programme... and in some cases to attend our shows, this has considerable cost attached to the organisation. Partnership programmes around improved transport links... to Valleys communities and across North Wales would be a huge benefit.”<sup>46</sup>

**61.** Clywodd y Pwyllgor am lawer o enghreifftiau o raglenni gwaith allgymorth ar sail sefydliadau'n mynd â'u cynyrchiadau i gymunedau a fyddai, fel arall, yn cael trafferth cymryd rhan oherwydd pellter a chost. Ariennir yr holl sefydliadau cenedlaethol sy'n cymryd rhan yn yr ymchwiliad hwn i wneud y math hwn o waith allgymorth. Yr enghraifft fwyaf cyffredin o'r gweithgaredd hwn oedd cynllun “Noson Allan” Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n mynd â pherfformiadau theatr, cerdd a dawns i leoliadau cymunedol ar draws Cymru.

**62.** Dywedodd Allan Herbert, Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon, fod y cynllun yn wych, gan ddweud y canlynol:

“It really does take theatre to places it's not normally seen... the last one we put on... at least 70 per cent of them had never been in a theatre, let alone being regular theatre-goers.”<sup>47</sup>

**63.** Pwysleisiodd Morag McDermont hefyd yr angen i gael seilwaith diwylliannol mewn cymunedau llai cyfoethog i wella cyfranogiad a chyfleoedd gwaith. Rhoddodd enghreifftiau:

“The media centres that have been set up actually in communities that are at the margin... to enable people within their own community to be engaging in the cultural arts, to be using their own creativity... It's making it possible for people to think, ‘Yes, this is something I could do.’ So, not assuming that people will go and travel into an unfamiliar area, but to be able to start off by saying, ‘Yes, this is something that can happen within this community’.”<sup>48</sup>

---

<sup>46</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Opera Cenedlaethol Cymru

<sup>47</sup> Paragraff 54, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 14 Mawrth 2019

<sup>48</sup> Paragraff 134, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 2 Mai 2019

### 4. 3. Rhwystrau diwylliannol

**64.** Clywodd y Pwyllgor fod llawer o bobl yn teimlo bod y celfyddydau ar gyfer grŵp penodol, a bod ganddynt syniad rhagdybiedig o'r hyn y mae'n ei gwmpasu. Ysgrifennodd Rubicon Dance y gall diwylliant fod ag arlliwiau hierarchaeth, statws ac elitiaeth.<sup>49</sup>

**65.** Soniodd Kathryn Williams, Rubicon Dance, fod y sefydliad yn ceisio gweithio gyda'r rhai yr ystyrir eu bod wedi'u hallgáu'n gymdeithasol neu'n "anodd eu cyrraedd":

"in our experience, the communities that we work with wouldn't consider themselves hard to reach, they wouldn't consider themselves disadvantaged, but they do think of these institutions as really, really distant, and that has kind of informed the way that we as an organisation work. We deliberately take our work to people ... I think we need to think about 'hard to reach' differently, and if organisations are saying, 'These people are hard to reach', they're not trying hard enough. They need to look at different strategies."<sup>50</sup>

**66.** Clywodd y Pwyllgor gan ProMo Cymru, er mwyn ehangu presenoldeb, fod angen i ganolfannau diwylliannol wneud mwy nag annog pobl mewn tlodi ac sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol i fynd i'w rhestr bresennol o ddigwyddiadau, gan ddweud bod angen i'r ffocws symud ymhellach tuag at weithio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd i greu gweithgareddau diwylliannol sy'n berthnasol iddynt er mwyn sicrhau cynhwysiant a chyfranogiad effeithiol.<sup>51</sup>

**67.** Mae'n nodi bod y sefydliadau mawr yn cael trafferth penderfynu sut i ymgysylltu'n effeithiol â phobl ar eu lefel a chreu pethau sy'n apelio atynt ac yn berthnasol iddynt ac nad annog mwy o bobl mewn tlodi i fynd i arddangosfa yw'r nod, ond cefnogi eu diwylliant eu hunain i gael sylw.<sup>52</sup>

**68.** Pwysleisiodd Mia Rees, Prince's Trust – Cymru, hefyd yr angen i ymgysylltu â phobl i ehangu mynediad. Dywedodd y canlynol:

"If I could put it quite crudely, engaging people in participation costs a lot more than reducing your ticket prices and getting bums on seats. If you are to engage in participation, as you will all know through what

---

<sup>49</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Rubicon Dance

<sup>50</sup> Paragraff 76, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 3 Ebrill 2019

<sup>51</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig ProMo Cymru

<sup>52</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig ProMo Cymru



you all do, there is a real commitment of time and effort and energy and money that needs to be spent on that. It is much easier to go, 'We're going to reduce our ticket prices and open the doors to people'—it's quicker, it's easier and it's cheaper. I would say that it's not unvaluable to get people viewing. People can't do and can't be what they can't see."<sup>53</sup>

**69.** Pwysleisiodd Gareth Coles, Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, hefyd y pwysigrwydd bod pobl yn cymryd rhan weithredol mewn prosiectau creadigol, gan ddweud y canlynol:

"I think, self-determination and governance, so, self-governance of groups—it's really important that people are involved in the decision making of their groups"<sup>54</sup>

**70.** Gwnaeth Julia Barry, Theatr y Sherman, sylw ar yr angen i fynd i'r afael â'r diffyg hyder y mae pobl yn ei deimlo wrth fynd i le anghyfarwydd megis adeiladau ein sefydliadau diwylliannol cenedlaethol. Dywedodd y canlynol:

"When we first started our Sherman 5 project... that was very much about getting people in as audiences to start with—one of the overarching responses that we were receiving from people as to why they didn't attend was 'Theatre isn't for people like me.' They talked about costs, they talked about transport, but actually, 'Theatre isn't for people like me'... And just for young people to have that awareness of what's involved from the outset, I think, is a starting point."<sup>55</sup>

**71.** Clywodd y Pwyllgor hefyd am lwyddiant prosiectau "Penderfyniad Pwy" a oedd yn cynnwys cleientiaid y Wallich, elusen ddigartrefedd, yn dewis gweithiau celf o gasgliad Amgueddfa Cymru ac yn ysgrifennu am y gwaith yn eu geiriau eu hunain.

**72.** Disgrifiodd Amgueddfa Cymru ei hymdrechion i wneud ei chasgliadau'n fwy hygyrch. Dywedodd Owain Rhys y canlynol:

"Er enghraifft, dŷn ni wedi penodi, yn y mis diwethaf, gweithiwr maes hanes du Cymru. Felly, bydd y gweithiwr maes yn mynd o amgylch

---

<sup>53</sup> Paragraff 81, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 6 Mawrth 2019

<sup>54</sup> Paragraff 82, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 6 Mawrth 2019

<sup>55</sup> Paragraff 281, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 14 Mawrth 2019

Cymru yn casglu elfen o hanes sydd ddim yn cael ei gynrychioli ar hyn o bryd yn Sain Ffagan.”<sup>56</sup>

## Ein safbwynt ni

---

Clywodd y Pwyllgor fod ystod o rwystrau o ran atal pobl mewn tlodi rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol. Y peth amlycaf yw cost mynediad. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor, hyd yn oed pan fydd y pris mynediad yn cael ei ostwng neu am ddim, fod llawer o rwystrau eraill sy'n atal pobl rhag cymryd rhan yn y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru. Gall y rhai sydd mewn tlodi gael eu hallgáu hefyd oherwydd nad oes ganddynt lawer o amser, diffyg trafndiaeth a gall y celfyddydau ymddangos yn ddieithr ac nad ydynt ar eu cyfer.

### **Trafnidiaeth**

Mae'r rhai sydd mewn tlodi'n llai tebygol o fod yn berchen ar gar ac yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Clywodd y Pwyllgor nad yw trafndiaeth ar gael i bobl fynd i ddigwyddiadau diwylliannol gyda'r hwyr neu ei bod yn rhy gostus i gyfiawnhau'r gwariant ar gyfer digwyddiadau diwylliannol. Mae lle i Lywodraeth Cymru, drwy Trafnidiaeth Cymru, ystyried tocynnau rhatach ar drafnidiaeth gyhoeddus i'r rhai sydd mewn perygl o allgáu cymdeithasol neu sydd mewn tlodi gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol. Byddai llawer o'r sefydliadau sy'n gysylltiedig â chynnal prosiectau i'r garfan hon yn elwa pe gallent gynnig cymhorthdal teithio neu drafnidiaeth am ddim i'w cleientiaid gymryd rhan yn eu gweithgareddau.

Dylid ystyried cynyddu mynediad i leoliadau diwylliannol i'r rhai sydd mewn tlodi neu sydd mewn perygl o allgáu cymdeithasol fel un o amcanion Trafnidiaeth Cymru. Hoffai'r Pwyllgor i gynlluniau peilot sefydlu partneriaethau i ddarparu trafndiaeth am ddim neu â chymhorthdal ar gyfer sefydliadau diwylliannol penodol, efallai ar gyfer tymor neu ddigwyddiad penodol. Dylai'r cynlluniau peilot hyn gael eu gwerthuso a dylid cyflwyno adroddiad arnynt i'r Pwyllgor.

### **Chwalu rhwystrau diwylliannol**

Mae cynyddu mynediad drwy gyflwyno sefydliadau a phrofiadau diwylliannol i bobl ifanc yn hanfodol er mwyn chwalu rhwystrau a mynd i'r afael â'r

---

<sup>56</sup> Paragraff 196, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 14 Mawrth 2019

canfyddiad bod diwylliant a'r celfyddydau yn elitaidd ac yn unigryw. Ystyrir tlodi uchelgais ac allgáu cymdeithasol yn gymaint o ran o dlodi ag allgáu ariannol.

Roedd yn amlwg bod ein sefydliadau cenedlaethol yn ymrwymedig i ehangu cyfranogiad, drwy eu gwaith allgymorth yn ogystal â thrwy gynyddu mynediad i'w casgliadau, a'u hymdrechion creadigol drwy fynd â hwy i'r cymunedau na all eu gweld yn eu lleoliadau parhaol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod hwn yn gam pwysig wrth chwalu'r rhwystrau a all atal pobl rhag cymryd rhan.

Hefyd, ochr yn ochr â'r ymdrechion i gynyddu mynediad at sefydliadau, dangoswyd yr ymdrechion i gynnwys pobl y gellir ystyried eu bod yn "anodd eu cyrraedd" wrth greu celf ar eu telerau eu hunain. Mae prosiectau sy'n cynnwys cymunedau wrth guradu gweithiau celf, ysgrifennu dramâu, coreograffu dawn ac ailgodio hanes llafar yn rhoi cyfle i bobl ddangos eu creadigrwydd ochr yn ochr ag artistiaid proffesiynol. Clywodd y Pwyllgor enghreifftiau o arfer gorau yn y maes hwn, gan gynnwys cynllun "Noson Allan" y Cyngor Celfyddydau a phrosiect "Penderfyniad Pwy" Amgueddfa Cymru a gafodd dderbyniad arbennig o dda.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd caniatáu i gyfranogwyr ganfod eu ffordd eu hunain yn greadigol a gosod yr agenda. Nodwyd bod llawer o'r anawsterau wrth berswadio cynulleidfaoedd anghyfarwydd i weld digwyddiadau diwylliannol yn cael eu dileu os yw'r cynulleidfaoedd hynny'n rhan o'r gwaith o gynllunio'r digwyddiad yn y lle cyntaf.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru, drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff celfyddydau a diwylliannol sy'n cael cyllid cyhoeddus nodi eu hamcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn eu cynlluniau strategol. Dylai'r rhai sy'n cael cyllid hefyd nodi sut y maent yn bwriadu cydgyllunio gweithgareddau a chynnwys creadigol gyda'r cynulleidfaoedd targed hyn.

**Argymhelliad 6.** Dylid ystyried cynyddu mynediad i'r lleoliadau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i'r rhai sydd mewn tlodi neu sydd mewn perygl o allgáu cymdeithasol fel un o amcanion Trafnidiaeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau i Trafnidiaeth Cymru ymrwymo i bartneriaethau â sefydliadau diwylliannol ar gyfer digwyddiadau a/neu leoliadau penodol i drefnu bod mynediad i'w gweithgareddau am ddim neu â chymhorthdal. Dylid cyflwyno adroddiad ar y cynlluniau peilot hyn i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid ar gyfer rhaglen Cyfuno i alluogi cyfranogwyr i hawlio costau cysylltiedig megis trafndiaeth.

## 5. Gwerthusiad

**73.** Clywodd y Pwyllgor am anhawster mesur effaith profiadau creadigol a diwylliannol ar y bobl sy'n cael y profiadau. Awgrymwyd nad oedd data meintiol - megis ymwelwyr ag atyniad a nifer y bobl sy'n dechrau cyflogaeth - yn rhoi asesiad digonol o ganlyniadau gwaith yn y maes hwn. Mae tystion yn defnyddio data ansoddol, megis holiaduron sy'n gofyn i'r cyfranogwyr asesu newidiadau yn eu hyder a'u sgiliau cymdeithasol. Nodwyd hefyd y gall newidiadau o'r fath ymddangos dros gyfnod hwy, gan ei gwneud yn anoddach casglu'r dystiolaeth hon.

**74.** Clywodd y Pwyllgor gan Morag McDermont ac Eva Elliot fod gosod dull canlyniadau'n tueddu i beidio ag annog ymgysylltiad creadigol, yn hytrach na'i annog.<sup>57</sup> Cydnabu Eva Elliott bwysigrwydd atebolrwydd am wariant cyhoeddus ar gynllun Cyfuno, ond rhybuddiodd y gall y ffyrdd mae pobl yn edrych ar y canlyniadau gael effaith ac atal y math o newidiadau a ddymunir. Dywedodd fod sefydliadau'n teimlo bod canlyniadau Cyfuno yn afrealistig ac yn gyfyngol, a bod disgwyl i'r trefnwyr ddangos pa mor wych roeddent wedi gwneud mewn ffyrdd nad oedd yn bosibl,<sup>58</sup> megis dangos pobl yn ennill cyflogaeth neu brentisiaethau ar ôl chwe mis yn unig.

**75.** Soniodd yr Athro Helena Gaunt, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, am yr anawsterau wrth werthuso ymyriadau:

“The problem that we've got is that much of that evidence is from fairly small data sets, and the evidence of the value of these disciplines... is often one that is about indirect benefits that ultimately lead towards improved lives and employment. You're not necessarily saying, 'This is the one and only factor that makes all the difference'. And I think it would be a mistake for the arts to try and start to suggest those things. It's part of a bigger picture.”<sup>59</sup>

**76.** Disgrifiodd Mia Rees, Prince's Trust – Cymru, yr anawsterau wrth werthuso gweithgareddau:

“The way that we measure its value at the Trust is the confidence that being involved in those activities gives—those soft skills that it gives

---

<sup>57</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Athro McDermont a Dr Elliott

<sup>58</sup> Paragraff 177, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 2 Mai 2019

<sup>59</sup> Paragraff 292, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 14 Mawrth 2019

people to progress in their lives positively, to help them live, learn, earn successfully... When we apply for funding, we have to assess on those hard outcomes: how many young people did we get into work, how many young people did we get into training?"<sup>60</sup>

**77.** Ystyriodd Amgueddfa Cymru yr her o fesur canlyniad gwaith Cyfuno yn fwy cynhwysfawr drwy ddefnyddio data mwy ansoddol:

"Mae mesur... effaith diwylliant yn gymhleth iawn. Mae yna nifer o ffactorau eraill sydd yn gallu effeithio ar y newid. Ac felly efallai fod jest mesur rhifau yn ei hun ddim yn ddigon, ac mae eisiau inni i fesur beth rŷm ni'n gallu'i fesur, ond hefyd meddwl ynglŷn â sut rŷm ni'n disgrifio tystiolaeth mwy *qualitative* a meddal, fel petai, yn y ffordd rŷm ni'n gweithio."<sup>61</sup>

**78.** Soniodd ProMo Cymru am deithiau personol cyfranogwyr mewn gweithgareddau diwylliannol, a oedd yn ei gwneud yn anodd gwerthuso llwyddiant yn wrthrychol:

"They have more aspiration at the end of it and I think that's the thing. You can see their eyes light up and they really feel proud of what they've been doing, and you know that they're going to take that experience with them... you know, they're on the brink, loads of them do end up in prison, this is the reality, but so many of them you can see that, actually, it has changed their path and it's given them something else, and it just gave them that bit of value, and that is really hard to quantify, but you can see that it's changed their journey."<sup>62</sup>

**79.** Wrth drafod anhawster mesur llwyddiant, dywedodd Diane Hebb, y Cyngor Celfyddydau, y canlynol:

"We do have... case studies that we could refer to where people have been involved in some of those projects and programmes who have then gone... either back into education or on to further training, volunteering or into employment. I think they're few and far between, and I don't think that's what engagement in the arts is fundamentally about. I think it's about changing aspiration. It's about all of those kinds of skills of confidence, social skills, creative skills. It's about that and those being an important part of the journey towards potential

---

<sup>60</sup> Paragraff 84, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 6 Mawrth 2019

<sup>61</sup> Paragraff 231, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 14 Mawrth 2019

<sup>62</sup> Paragraff 154, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 8 Mai 2019

employment, volunteering and that. [Evaluation] is something that we need to get better at. But, clearly, through the programmes... we fund have been delivering—it's those skills of confidence, enrichment, collaboration, organising, decision making, which come with everyday creativity, that make a difference as part of a journey.”<sup>63</sup>

## Tystiolaeth Llywodraeth Cymru:

**80.** Wrth drafod gwerthuso, dywedodd Lesley-Anne Kerr, Llywodraeth Cymru, y canlynol:

“I think the qualitative evaluation is always the difficult bit to really pin down. So, what we're actually looking at at the moment are different evaluation models, and one we've looked at, for example, is the University College London model, which is more round—it's a model for museums, but would transfer quite well across the cultural sector, I think. That looks at health and well-being. I think three different museums in Wales have used it, and they've found that quite a useful model.”<sup>64</sup>

## 5. 1. Gwerthusiad o raglen Cyfuno

### Y cefndir

**81.** Mae gwaith a wneir drwy Cyfuno yn cael ei werthuso yn unol â'r dangosyddion a ganlyn:

- Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar a Dysgu fel Teulu;
- Ennill cymhwyster;
- Gwirfoddoli'n rheolaidd fel llwybr i waith;
- Cwblhau profiad gwaith;
- Sgiliau digidol gwell;
- Agwedd well tuag at ddysgu'n ffurfiol;
- Y gallu i reoli lles meddyliol ac iechyd corfforol yn well.

---

<sup>63</sup> Paragraff 27, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 2 Mai 2019

<sup>64</sup> Paragraff 112, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 22 Mai 2019

**82.** Mae rhaglen Cyfuno wedi'i gwerthuso dair gwaith. Canolbwyntiodd y gwerthusiad cyntaf ar effeithiolrwydd **dylunio a darparu rhaglen Ardaloedd Arloesi** ac i ba raddau y cynyddodd gyfranogiad mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf mewn gweithgareddau diwylliant, celfyddydau a threftadaeth, mewn ffyrdd a oedd yn helpu pobl i ddysgu, datblygu sgiliau, magu hyder a gwella llesiant, rhwng 2015 a 2016. Dangosodd y gwerthusiad:

“bwyslais cryf... ar ddatblygu strwythurau a gweithgareddau i arwain a chefnogi unigolion i ddatblygu llwybrau priodol i fyw'n annibynnol, dysgu a/neu gyflogaeth, ac i fonitro a hwyluso eu dilyniant.”<sup>65</sup>

**83.** Canolbwyntiodd yr ail werthusiad ar safbwyntiau ystod eang o randdeiliaid diwylliannol yn cymryd rhan mewn Partneriaethau Cyfuno i asesu effaith y rhaglen ar eu sefydliadau eu hunain, yn ystod 2016-17. Dangosodd:

“fod sefydliadau diwylliannol yn targedu gweithgareddau'n fwy effeithiol at bobl sy'n wynebu tlodi. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo hefyd fod eu sefydliad yn cydweithio mwy wrth gydgyllunio ymyriadau diwylliannol gydag unigolion a grwpiau o gymunedau difraint, ac yn cydweithio'n fwy effeithiol gyda sefydliadau diwylliannol eraill ac asiantaethau yn y gymuned leol sy'n gweithio gyda'r cymunedau hynny. Teimlai'r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr ymchwil hefyd fod unigolion sy'n wynebu tlodi yn eu cymunedau'n manteisio mwy ar weithgareddau diwylliannol yn sgil y Partneriaethau Cyfuno.”<sup>66</sup>

**84.** Nododd yr adolygiad: “mai'r ffactor mwyaf pwysig er mwyn sicrhau llwyddiant yn y dyfodol oedd bod angen i Bartneriaethau Cyfuno gynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau”.<sup>67</sup>

**85.** Mae'r trydydd adolygiad yn canolbwyntio ar rôl cydgysylltwyr Cyfuno a disgwyllir ei gyhoeddi ar ôl i'r Pwyllgor gytuno ar yr adroddiad hwn.

## Canfyddiadau

**86.** Nododd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad mai mwy o gydweithredu rhwng sefydliadau diwylliannol oedd prif fantais prosiect Cyfuno.

---

<sup>65</sup> Gwerthusiad o Flwyddyn Beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi

<sup>66</sup> Y Rhaglen Cyfuno: Adolygiad o'r Ail Flwyddyn

<sup>67</sup> Y Rhaglen Cyfuno: Adolygiad o'r Ail Flwyddyn

**87.** Dywedodd llawer o dystion ei bod yn ymddangos bod rolau'r cydgysylltwyr a ariannwyd drwy Cyfuno yn gweithio'n dda. Dywedodd Amgueddfa Cymru y canlynol:

“Mae rôl y cydlynnydd wedi gweithio, achos mae e'n gweithio fel broker i ddod â gwahanol bobl at ei gilydd yn lleol yn y gymuned, ac i ddod â'r cenedlaethol i mewn, yn hytrach na'r cenedlaethol yn 'parachut-io' mewn.”<sup>68</sup>

**88.** Mae'r Cyngor Celfyddydau yn dweud ei bod yn ymddangos mai ariannu rolau'r cydgysylltwyr yw'r defnydd gorau o arian cymharol fach. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

“The coordinators are increasingly proving effective brokers, able to straddle sectors, spot opportunities and stimulate collaboration.

The national networking days, training and cross-sector working is clearly, in our opinion, a strength of the programme.”<sup>69</sup>

**89.** Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi dweud y gall y math o ymyriadau yn rhaglen Cyfuno newid bywydau'r unigolion dan sylw, ond i nifer fach o bobl yn unig, ac nad oes modd i'r ymyriadau hyn gael eu hehangu'n gyflym.<sup>70</sup>

**90.** Fel llawer o bobl eraill, galwodd Rubicon Dance i Cyfuno – sy'n gyfyngedig i hen ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ar hyn o bryd - gael mwy o gyrhaeddiad cenedlaethol.<sup>71</sup>

## Methodoleg

**91.** Cwestiynodd nifer o dystion addasrwydd y canlyniadau a ddefnyddiwyd i werthuso Cyfuno. Er enghraifft, dywedodd Allan Herbert, Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon, fod y canlyniadau presennol a ddefnyddir i werthuso Cyfuno yn gyfyngol, ac yn canolbwyntio'n ormodol ar gyflogaeth. Dywedodd y canlynol:

“I think Welsh Government's done a disservice to the Baroness Kay Andrews report... the breadth of that report was not just about employment... And when that gets translated into an outcomes

---

<sup>68</sup> Paragraff 246, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 14 Mawrth 2019

<sup>69</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Celfyddydau Cymru

<sup>70</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

<sup>71</sup> Paragraff 119, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 3 Ebrill 2019



framework for Fusion... it distorts the entire intent of the recommendations.. They've co-opted another programme for an employment programme, and that does a disservice to the research, it does a disservice to people and their ability, because the real way that you get progress is not just through shoe-horning someone into a job; it's through increasing the engagement process with culture, and that will lead to more meaningful employment. If you don't do that, you're missing a real big trick, there."<sup>72</sup>

**92.** Gwnaeth y Farwnes Kay Andrews OBE sylw ar yr angen i'r gwerthusiad gynnwys mwy o ystyriaeth o ganlyniadau iechyd, er enghraifft iechyd meddwl, a chanlyniadau addysgol. Gwnaeth sylw ar anhawster mesur newid:

"the first thing is you have to acknowledge the timescales are different for different sorts of outcomes and different sorts of projects, and be very sophisticated about that, actually. So, we can't expect to see direct causal relationships in education, for example, around motivation, which would manifest itself, possibly, as better attendance in the classroom."<sup>73</sup>

**93.** Soniodd am yr angen i gynnwys naratifau personol wrth werthuso ymyriadau. Galwodd i Lywodraeth Cymru ystyried astudiaethau achos a luniwyd ar gyfer adroddiadau Cydgysylltwyr Cyfuno ochr yn ochr â data eraill. Dywedodd y canlynol:

"they do write the story of the experience of maybe one person or maybe a group of people. And in that, of course, there is a whole narrative of emotional change, confidence, trusting, people respecting you for doing whatever you've chosen to do...One of my arguments is to say that I think we should be less inhibited about releasing that sort of story."<sup>74</sup>

## Ein safbwynt ni

---

Clywodd y Pwyllgor am yr anawsterau wrth fesur canlyniadau gwaith a wnaed i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol.

---

<sup>72</sup> Paragraff 26, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 14 Mawrth 2019

<sup>73</sup> Paragraff 198, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 10 Gorffennaf 2019

<sup>74</sup> Paragraff 206 a 208, cyfarfod Pwyllgor DGCh, 10 Gorffennaf 2019

Mae natur tymor hir yr effaith ar fywydau pobl yn golygu y gall mesur canlyniadau fod yn ddrud a bod priodoli newidiadau i ymyriadau penodol yn anodd iawn. Mae'r sefydliadau y clywsom ganddynt yn argymhell defnyddio data ansoddol, yn ogystal â data meintiol. Er enghraifft, gellir mesur pa mor hyderus y mae rhywun yn teimlo am ymweld ag amgueddfa ochr yn ochr â ffigurau ymwelwyr.

Yn aml, mae gofynion cyllid yn rhwymo sefydliadau i gasglu data pendant, megis nifer y cyfranogwyr sy'n dechrau cyflogaeth neu hyfforddiant, sy'n golygu bod llai o reswm i fuddsoddi mewn trefniadau casglu data ansoddol, megis mesur cynnydd mewn hyder, sgiliau cymdeithasol a sgiliau creadigol dros gyfnod hwy.

Clywodd y Pwyllgor am bŵer astudiaethau achos unigol i ddangos llwyddiant, megis cyfranogwr o Ganolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon a benderfynodd fynd yn ôl i fyd addysg fel oedolyn ac a aeth ymlaen i fod yn nyrs.

Clywodd y Pwyllgor alwadau am fwy o ddefnydd o astudiaethau achos wrth adlewyrchu llwyddiant y rhaglenni celfyddydau a diwylliannol a'r gwerth y gallant ei gynnig wrth ddangos trawsnewid personol.

Mae'n galonogol bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ei model gwerthuso ar gyfer rhaglen Cyfuno i weld sut y gall gofnodi data mwy ansoddol. Y gobaith yw y gellir cytuno ar hyn mewn pryd ar gyfer y pedwerydd adolygiad blynyddol o raglen Cyfuno.

Clywodd y Pwyllgor am ddulliau casglu data ansoddol gwahanol, gan gynnwys enghreifftiau gan ProMo Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Comisiwn Warwick ac Amgueddfa Cymru.

Byddai'n ddefnyddiol i Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o'r dulliau hyn ac adrodd i'r Pwyllgor ar y cryfderau a gwendidau cymharol a'i chynigion ar gyfer sut y bydd yn diweddarau ei threfniadau casglu a dadansoddi data ansoddol ar brosiect Cyfuno yn y dyfodol.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor ar y cynigion ar gyfer datblygu set ddata ansoddol ar raglen Cyfuno a'r amserlen i'w hymgorffori yn y fethodoleg werthuso.

## Y camau nesaf

Caiff yr adroddiad hwn ei anfon i Lywodraeth Cymru a bydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor i ymateb i bob argymhelliad. Bydd yr argymhellion a chynnydd gwaith

Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn cael eu trafod â'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn ystod sesiwn graffu ar y pwnc hwn ac mewn trafodaeth ar y Gyllideb Ddrafft nesaf.

Os oes gennych gwestiynau am yr ymchwiliad hwn, e-bostiwch [SeneddDGCh@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDGCh@cynulliad.cymru).

## Atodiad A

Clywodd y Pwyllgor gan yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn yn ein cyfarfodydd. Mae trawsgrifiadau'r cyfarfodydd hyn ar gael ar ein gwefan:

<http://cofnod.cynulliad.cymru/Search/?type=2&meetingtype=445>

Dyddiad	Enw a Sefydliad
6 Mawrth 2019	Gareth Coles, Celfyddydau Gwirfoddol Cymru Mia Rees, The Prince's Trust - Cymru
14 Mawrth 2019	Dr Victoria Winckler, Sefydliad Joseph Rowntree Allan Herbert, Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon John Hallam, Maindee Unlimited Christopher Catling, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru David Thomas, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru Nia Williams, Amgueddfa Cymru Owain Rhys, Amgueddfa Cymru Yr Athro Helena Gaunt, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Julia Barry, Theatr y Sherman
20 Mawrth 2019	Tina McMahon, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Lauren Hughes, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Kelly Barr, Age Cymru Dr Valerie Billingham, Age Cymru
3 Ebrill 2019	Siân Lewis, Yr Urdd Catrin James, Yr Urdd Kathryn Williams, Rubicon Dance
2 Mai 2019	Richard Bellamy, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Diane Hebb, Cyngor Celfyddydau Cymru Yr Athro Morag McDermont, Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bryste Dr Eva Elliott, Prifysgol Caerdydd
8 Mai 2019	Leonara Thomson, Opera Cenedlaethol Cymru Michael Garvey, Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC Arielle Tye, ProMo Cymru

<b>22 Mai 2019</b>	Dafydd Elis-Thomas AC, Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru Jason Thomas, Llywodraeth Cymru Lesley-Anne Kerr, Llywodraeth Cymru
<b>10 Gorffennaf 2019</b>	Y Farwnes Kay Andrews OBE

## Atodiad B

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig gan yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn. Mae ar gael yma:

<http://senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=319>

Cyfeiriad	Sefydliad
CP01	Traddodiadau Cerdd Cymru
CP02	Datblygu Celfyddydau Caerffili
CP03	Cered
CP04	Cartrefi Cymunedol Gwynedd
CP05	Cyngor Celfyddydau Cymru
CP06	Age Cymru
CP07	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
CP08	Llenyddiaeth Cymru
CP09	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
CP10	Plant mewn Amgueddfeydd
CP11	Urdd Gobaith Cymru
CP12	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
CP13	Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
CP14	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
CP15	Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru
CP16	Cyngor Gwynedd
CP17	Sefydliad Bevan
CP18	Amgueddfa Cymru
CP19	Celfyddydau Gwirfoddol Cymru
CP20	Maindee Unlimited
CP21	Sherman Theatr
CP22	Rubicon Dance